Cyngor Tref Aberteifi :-: Cardigan Town Council

Cofnodion yr is-bwyllgorau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, nos Fawrth, 17 Ionawr 2017 am 6.00yh.

Minutes of the sub-committees held at the 36 Pendre Conference Room on Tuesday, 17 January 2017 at 6.00pm.

Presennol/*Present*—**Y Cynghorwyr**/Councillors Clive Davies *(***yn y gadair***/in the chair),* John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Graham Evans, Akira Shimazaki.

Ymddiheuriadau/*Apologies*—Y Cyng./Cllr Jane Roche, Mark Cole, Richard Jones, Melfydd George

Cynllunio / Planning

(Mae gan yr is-bwyllgorau bwerau dirprwyol i ddanfon sylwadau ar ran y cyngor at Gyngor Sir Ceredigion. Sub-committees have delegated powers to forward council observations to Ceredigion County Council.)

Rhif y Cais / Application No.	*Cyfeiriad /* Address	*Y Bwriad / Proposal*	*Sylwadau / Observations*
A161167	Pentood Uchaf, Fishguard Road	Extension of existing toilet and washing area block	*Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.* The council supports the application.
A161171	9 St Mary Street	*Newidiadau mewnol* / Internal alterations	*Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.* The council supports the application.

Datgan diddordeb / Declaration of interest:
Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis (A161167, A161171)
Y Cyng. / Cllr Clive Davies (A161171)

A161031—Bwthyn Bach, Stryd Wiliam: Cyfarfod safle / Site meeting.
Mae'r cyngor wedi gofyn i adran gynllunio'r cyngor sir am gyfarfod safle oddi ar 6 Rhagfyr.
The council has asked the planning department of the county council to arrange a site meeting since 6 December.

Man Chwarae Maesglas Play Area

Gohebiaeth: Llythyr Tai Ceredigion

Correspondence: Tai Ceredigion

Awgrymwyd bod y cyngor yn trafod y mater wedi derbyn adwaith preswylwyr Maesglas a Ffordd Aberystwyth.

It was recommended that the issue be further discussed pending the receipt of the response of the Maesglas and Aberystwyth Road residents.

Netpool

Ymateb y cyngor sir i ymholiad cyngor y dref am berchenogaeth y safle a ddewisir i blannu coed.

The county council's response to the town council's query regarding ownership of the land proposed for the planting of trees (Woodland Trust).

Wedi ystyried yr holl amodau a osodwyd gan Mr Jon Hadlow yn ei lythyr ynglŷn â phlannu coed yn ardal y Netpwl, awgrymwyd gohirio anfon cais i mewn.

Awgrymwyd hefyd gofyn i Mr Hadlow am ei gynlluniau ynglŷn â phlannu coed yn yr ardal a hefyd gwelliannau i fan chwarae naturiol Netpwl.

Taking into account the number of conditions stipulated by Mr Jon Hadlow in his letter regarding the planting of trees at Netpool, it was recommended that the application be deferred.

It was also recommended to ask Mr Hadlow for his immediate plans for planting trees in the Netpool area and especially for improvements to the play area thereat.

Blodau a Phlanhigion / Flowers and Plants

Pris oddi wrth Mr Jon Hadlow (Rheolwr Gerddi'r Cyngor Sir) am blannu a chynnal a chadw'r blodau am y flwyddyn 2017.

Quotation from Mr Jon Hadlow (County Council Grounds Maintenance Manager) for planting and maintenance of flowers and gardens in 2017.

Awgrymwyd cynnal cyfarfod rhwng Mr John Morris (Bachan Deche) a'r Cyng. Dai Brabrook i drafod costau pe bai'r cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw'r blodau yn ogystal â Gerddi Victoria am y flwyddyn 2017, ac i ddychwelyd â chostau cydradd i'r cyngor.

It was recommended that Mr John Morris (Handyperson) and Cllr Dai Brabrook discuss the possibility of the town council maintaining the flowers, containers and Victoria Gardens for 2017, and to furnish the council with like-for-like costs.

Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Playing Field:

Pris am ailbeintio'r llinellau gwyn ar y cyrtau tenis.

Quotation for repainting the white lines on the tennis courts.

Awgrymwyd bod y cyngor yn talu'r costau o £600 i gael y llinellau wedi eu hailbeintio yn broffesiynol.

It was recommended that the council pays £600 to have the lines professionally repainted.

Bolardiau ar faes parcio'r cae chwarae: Awgrymwyd y dylid hel gwybodaeth am y corff sydd â chyfrifoldeb am y bolardiau sydd ar hyn o bryd yn pery gofid i gerddwyr.

The Car Park bollards: It was recommended that further information be obtained regarding the body responsible for the bollards which have a potential hazard to walkers and other users.

Pyst Pêl-droed: Awgrymwyd bod y cyngor yn trafod costau cartrefu'r pyst ar ffin y man chwarae. Bydd angen gosod sylfaen a ffens i'w cadw'n daclus. Awgrymwyd bod y cyngor yn cyfrannu tuag at y gost. Cytunodd y Cyng. Brabrook gael prisiau.

Goalposts: It was recommended that the council contributes towards the cost of laying a hard core base and fencing to house the goalposts adjacent to the play area. Cllr Brabrook agreed to obtain costings.

Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

(a) **Adolygiad Etholiadol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.**
Local Democracy and Boundary Commission for Wales Electoral Review.
Cyfarfod/Meeting: 25/1/2017, 5.30pm, Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron.
Cytunodd y Cyng. Adams-Lewis fynychu'r cyfarfod.
Cllr Adams-Lewis agreed to attend the meeting.

(b) **Damwain i unigolyn ym maes parcio Pendre. Derbyniwyd adroddiad oddi wrth aelod o'r cyhoedd a syrthiodd dros un o'r bolardiau yn y maes parcio. Awgrymwyd bod y clerc yn ysgrifennu at y cyngor sir yn gofyn i swyddog o'r adran dechnegol archwilio'r safle cyn i ddamweiniau pellach ddigwydd ac i awgrymu bod y bolardiau i gyd yn cael eu symud o'r safle.**
Accident in the Pendre car park. A report was received from a member of the public following an accident sustained by tripping over one of the bollards in the car park. It was recommended that the clerk informs the technical services of the county council requesting an officer to inspect the car park before further accidents occur, and to recommend that all the bollards be removed.

Er gwybodaeth / For information

Nos Wener, 27 Ionawr–Cyfarfod yn festri Bethania am 6.00yh i drafod y posibiliadau o gynnal Carnifal yn ystod 2017.
Friday, 27 January–Meeting at Bethania vestry at 6.00pm to discuss the possibility of arranging the 2017 Carnival.

Nos Iau, 23 Chwefror—Cyfarfod yn Neuadd y Dref am 6.00yh i drafod sefydlu *wi-fi* i ganol y dref.
Thursday, 23 February—Meeting at the Guildhall at 6.00pm to discuss the introduction of a wi-fi system in Cardigan.